**Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Aberdaron gynhaliwyd nos Lun, Hydref 10fed 2022 yn Neuadd Rhoshirwaun**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Nesta Roberts, Tim Rosa, Dafydd Williams, Dewi Evans, Emlyn Jones, Dafydd Myrddin a Wil Evans.
**Yn y gadair:** Y Cyng Wenda Williams

**Roedd Steffan Smith, swyddog Cynllun Peilot Ardal Dwyfor yn bresennol ar ddechrau y cyfarfod i roi cyflwyniad:** Eglurodd ei fod ef a Catrin Huws yn gweithio fel hwyluswyr tai gwledig fel rhan o gynllun newydd wedi ei anelu at helpu i bobl leol allu fforddio byw yn eu cymunedau.
Y nôd ydi creu astudiaethau fydd yn arwain at newidiadau i reolaeth cynllunio, trethi lletai gwyliau a thir fydd er mwyn bod o gymorth i bobl leol fforddio prynu neu rentu tai yn yr ardal yn wyneb yr argyfwng presennol.
Mae'r cynllun yn golygu gweithio yn agos gyda yr Awdurdod Lleol a'r Cymdeithasau Tai ynghyd a chynghorwyr lleol gan ymgynghori gyda'r gymuned leol.
Anelir at sicrhau fod mwy o dai sydd yn cael eu gwerthu ar y farchnad agored yn fforddiadwy a thrwy gynllun 'Home Buy' mae bethyciad o hyd at 50% o gost tŷ yn cael ei gynnig yn ddi lôg, ac heb fod angen ei dalu yn ôl hyd, ac os y bydd yr eiddo yn cael ei ail werthu.
Fe fydd y cynllun peilot yn rhoi cyfle i edrych i fewn i'r rhwystrau o fewn y polisiau cynllunio sydd yn atal i bobl drosi adeiladau yn gartrefi gan geisio darganfod mwy o hyblygrwydd.
Eglurodd ei fod ef a'i gyd weithiwr yn ymweld a phob cyngor cymuned yn ardal Dwyfor ac yn bwriadu cydweithio gyda y cynghorau trwy gydol cyfnod y cynllun.
Bu trafodaeth eang am y cynllun a diolchwyd iddo am ei gyflwyniad
**1)Ymddiheuriadau a datgan diddordeb:** Derbyniwyd ymmdiheuriadau gan y Cyng RJ Williams, Mari Evans a Gwenllian Hughes Jones
**2)Cyhoeddiadau y cadeirydd:** Nid oedd gan y Cadeirydd gyhoeddiadau.
**3)Llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 21ain o Fedi 2022:** Nodwyd un cywiriad, sef eitem 7, am dorri gwellt y cae chwarae 'roedd bil WJ Jones, nid y fynwent.
Codwyd mater gan y Cyng Nesta Roberts, nad oedd yn bresennol yn y cyfarfod diwethaf ynghylch eitem 4vi)Canolfan Crud y Werin. Roedd yn siomedig fod y Cyngor wedi derbyn y cyfansoddiad newydd gan nad oedd ond un newid i'r cyfansoddiad gwreiddiol sef bod aelod o'r pwyllgor i gynrhychioli ddefnyddwyr y ganolfan. Roedd yr aelod yn teimlo fod y gynrhychiolaeth yn anghytbwys gan fod y myafrif yn parhau i fod yn llywodraethwyr yr ysgol. Hefyd roedd yn teimlo y dylai bod cymal yn y cyfansoddiad fod y brif fynedfa i'w defnyddio pan mae y ganolfan ac nad ydi adnoddau yr ysgol i gael eu cadw yn y ganolfan.
Nodwyd nad ydi hi yn bosibl newid penderfyniad y cyngor o fewn 6 mis i ddyddiad y penderfyniad.
Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.
**4) Materion yn codi o'r cofnodion:**
**i)Ymatebion Cyngor Gwynedd i faterion ffyrdd a llwybrau:**
Derbyniwyd ymateb i rai o'r materion a godwyd yn mis Medi twy law y Cynghorydd Sir fel a ganlyn:
**a)Marciau fordd yn yr ardal**: Mae rhai o'r marciau a ofynwyd amdanynt wedi eu paentio gan gynnwys marciau yn y fynedfa i faes parcio Henfaes, er nad ydi y Cyngor yn cymeryd cyfrifoldeb am y marciau 'Give way' gan eu bod ar dir preifat. Mae'r archwiliwr priffyrdd yn gobeithio y bydd digon o gyllid ar ôl i wneud y marciau ffordd sydd ar ôl yn yr ardal – Uwchmynydd a'r ffordd o Aberdaron i gyfeiriad Rhiw er engraifft, ond nid yw'n gallu gaddo

dim ar hyn o bryd. Bydd y geiriau “ARAF / SLOW” ger Geufron yn cael eu rhoi os yw’r cyllid yn caniatau.
Nododd yr aelodau fod arwyddion dros dro wedi eu gosod yn yr ardal a’u bod yn flêr, penderfynwyd tynnu sylw y Swyddog AHNE at hyn.
**b)ARAF / SLOW ger Eglwys Bodferin:** Gan nad oes marciau yno’n barod, ni fydd yr Adran Priffyrdd yn medru gwneud hyn. Bydd yn rhaid i’r cais fynd i’r tîm Traffig ac mae angen i’r Cyngor Cymuned anfon cais hefyd i’r swyddog, Iwan ap Trefor, er mwyn cryfhau’r cais.
**c)Barbio ochrau’r ffyrdd:** Mae yr archwiliwr priffyrdd wedi cadarnhau y bydd un toriad arall i gloddiau’r priffyrdd o Bwllheli i Aberdaron cyn y gaeaf. Nodwyd fod y gwaith wedi ei wneud ond fod angen barbio rhwng Aberdaron a’r Rhiw yn ogystal.
**ch) Cyfarfod gyda Barry Davies, y Swyddog Morwrol:** Mae’r Cynghorydd sir am oofyn i Gyngor Cymuned Aberdaron gael gwahoddiad i’r cyfarfod safle ar y traeth yn fuan yn 2023 i drafod y gwelliannau sydd angen eu gwneud yno cyn tymor yr haf nesaf.
Nododd yr aelodau fod angen gofyn i’r swyddog Morwrol am i’r bwiau gael eu gosod yn Aberdaron yn ystod tymor 2023.
Derbyniwyd ymateb gan Iwan ap Trefor, y swyddog tîm traffig i faterion a godwyd yn mis Medi fel a ganlyn:
**d)Llwybr rhwng Ysgol Crud y Werin a Bro Hywyn:** Mae’r cynllun i greu llwybr newydd heibio Ysgol y Crudd y Werin at stad Bro Hywyn wedi ei adnabod ar y mapiau teithio llesol. Does gan y Cyngor ddim arian i adeiladu llwybrau o’i fath ac felly mae cynllun yn hollol ddibynnol ar gyflwyno bidiau i Lywodraeth Cymru. Mae strategaeth Trafnidiaeth Cymru, sef y ‘Llwybr Newydd’, yn rhoi dipyn mwy o bwyslais ar drafnidiaeth gynaliadwy gyda theithio llesol yn rhan annatod o’r strategaeth. Er hynny nid ydi Cyngor Gwynedd wedi gweld unrhyw dystiolaeth sy’n dangos bod y Llywodraeth yn awyddus i gyflwyno’r lefel o fuddsoddiad a fyddai caniatáu i’r cynghorau lleol adeiladu llwybrau sy’n cynnig gwelliant ym mhob rhan o Wynedd.
Mae swyddogion mewn trafodaethau rheolaeth gyda’r Llywodraeth i weld sut y gall cymunedau gwledig fel Aberdaron elwa a gwneud eu rhan i ceisio cyrraedd nodau strategol y ‘Llwybr Newydd’. Un sylwad sydd wedi ei dderbyn, yw’r sefyllfa tiroedd. Mae cynnal trafodaethau gyda’r tirfeddianwyr i adeiladu’r darpariaeth yn rhywbeth sy’n anodd iawn i’r Cyngor ei gyflawni. Awgrymodd bod cyfle i’r Cyngor Cymuned helpu trwy gydweithio gyda swyddogion i adnabod pwy yw’r tirfeiddianwyr a gofyn os oes unrhyw sylwadau parthed yr opsiynau sydd wedi eu rhoi ger bron. Credir y byddai hynny yn help mawr i’r gwasanaeth fedru egluro bod yna dipyn o waith cychwynnol wedi digwydd i leihau’r risg o adeiladu’r darpariaeth.
**dd)Gor yrru ar y B4413:** Mae’r gwasanaeth wedi bod yn gweithio ar gynllun a fyddai’n helpu i leihau’r broblem o oryrru yn yr ardal. Y bwriad yw rhoi rhaglen waith sy’n cynnwys gwaith yn ystod yr Hydref. Mae Andrew Gregson yn edrych ar faterion diogelwch eraill yn yr ardal ac mi fydd Andrew yn cysylltu â’r cynghorydd lleol i drafod y materion.
Cynnigiodd y swyddog gyfarfod gyda aelodau y cyngor cymuned i drafod ymhellach ac fe fydd y clerc yn gofyn iddo os y byddai y 18fed o Hydref am 12.30 yn gyfleus.
ii)Materion yr Eglwys Newydd: Adroddodd y clerc ei fod wedi cysylltu gyda Matt Osmont o gwmni Donald Insall a gyda Caryl Lewis o gwmni Celyn ac mae bwriad i gyfarfod gyda’r Cyngor Cymuned yn fuan.
**iii)Yr afon ym mhentref Aberdaron:** Derbyniwyd ymateb gan Dylan Evans o Gyfoeth Naturiol Cymru yn egluro fod archwiliad o’r afon wedi ei wneud a bod chwyn wedi eu torri. Mae y tirlithriad wedi ei archwilio ond nid yw yn ymddangos i fod yn gwaethygu.

Mae wedi cyfarfod gyda chynrhychiolwyr o Stad Nanhoron i drafod y wal sydd wedi disgyn, ac mae hi wedi ei hadfer.
Mae hefyd wedi trafod y difrod i'r bont gyda Ymghynghoriaeth Gwynedd a gobeithir fod y gwaith adfer yn mynd i gael ei gwblhau yn fuan.
**iv)Hyfforddiant Cynghorwyr:** Nid yw Cyngor Botwnnog yn awyddus i fod yn rhan o'r hyfforddiant, disgwylir am ymateb gan Gyngor Tudweiliog.
**v)Clybiau Ieuenctid:** Derbyniwyd ymateb gan Sion Bryn Roberts yn datgan mai £1,751.40 fyddai côst 10 sesiwn yng Nghanolfan Deunant. Mae'r Cyngor yn teimlo fod angen mwy o wybodaeth am y cynllun, felly penderfynwyd gofyn i Bryn fynychu cyfarfod nesaf y Cyngor.
**5) Gohebiaethau**
i)Derbyniwyd prisiau archwiliad iechyd a diogelwch o offer y cae chwarae gan gwmni Wicksteed, fe fyddai yr archwiliad yn £150. Penderfynwyd gofyn i'r cwmni wneud archwiliad
ii)Derbyniwyd mantolen ariannol ar gyfer y cwch i bobl anabl 'Wheely Pete'. Mae'r Cyngor yn dymuno derbyn mwy o wybodaeth am y gwasanaeth a gynnigir er mwyn trafod rhoi cyfraniad yn mis Mawrth 2023.
**6) Cynllunio**
Cais C22/0892/30/LL:Codi adeilad amaethyddol er mwyn storio cnydau, gwair, gwellt ac ŷd, Meillionydd Bach, Rhoshirwaun - dim gwrthwynebiad
C22/0895/30/LL: Dymchwel annedd, modurdy a sied bresennol a chodi annedd newydd gyda modurdy, Gwynant, Aberdaron - dim gwrthwynebiad
C22/0879/30/DT: Estyniadau ac addasiadau, Y Groesffordd, Rhiw - dim gwrthwynebiad ond mae angen sicrhau fod man parcio o fewn cwrtil yr eiddo
C22/0881/30/LL: Cais llawn i gadw 8 carafan teithiol ychwanegol, Maes Carafanau Bryn Ffynnon, Rhydlios - dim gwrthwynebiad cyn belled a bod cynllun tirlunio a phlannu coed
**7)Ariannol**
Taliadau:
Awdurdodwyd y taliadau canlynol:
Iwan Hughes: £195.53
HMRC (Paye): £48.80
Nesta Roberts: £12.56 (CCTV trwy S/O)
HSBC: £5 (ffioedd)
Scottish Power: £30.25 (trydan yr eglwys, balans y cyfri yn £340.08)
Costau etholiad: £321
Derbyniadau:
£140, claddu llwch y diw. Mary Ellen Jones (Henry Jones, Criccieth)
**8) Materion ffyrdd a llwybrau**
i)Mae twll yn y ffordd oedd wedi ei lenwi rhwng Nant a Nant y Gadwen, Y Rhiw wedi ail agor.
ii)Mae tyllau yn y ffordd rhwng Ty'n Llidiart a Thŷ Croes Mawr, Y Rhiw
iii)Gwnaed cais am fin sbwriel yn nhop yr allt ger Sŵn y Don.
iv)Mae yr arwydd 'Aberdaron' wedi diflannu ar gwr y pentref ger eglwys Sant Hywyn, pendefynwyd holi y Swyddog AHNE.
v)Gofynwyd i roi Meddygfa Rhydbach ar raglen y cyfarfod nesaf.

**Bydd y cyfarfod nesaf o'r cyngor yn cael ei gynnal nos Lun, Tachwedd y 14eg yn Neuadd Y Rhiw**